| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Olwyn Stori Dylan Thomas |
| Disgrifiad: | Creu olwyn stori am fywyd Dylan Thomas |
| Blynyddoedd: | CA2 |
| Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd.**<br>***Darllen a deall:**<br>Bl3:<br>• nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun<br>• dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant<br>• cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol<br>Bl4:<br>• nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau<br>• dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth<br>Bl5:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau<br>Bl6:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un pwnc<br>***Ymateb a dadansoddi:**<br>Bl3:<br>• defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu<br>Bl4:<br>• dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau<br>Bl5:<br>• cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol<br>Bl6:<br>• cydgasglu a gwneud cysylltiadau rhwng gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol |
| Offer angenrheidiol: | • Llinell amser Dylan Thomas<br>• Olwyn Stori - KS2_ReadingActivity2_StoryWheel_CYM |
| Dull: | • Rhowch gopi o linell amser Dylan Thomas i'r dysgwyr a mynd drwyddo gyda nhw.<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr restru'r digwyddiadau pwysicaf ym mywyd Dylan Thomas.<br>• Gofynnwch iddynt leihau'r nifer o ddigwyddiadau i'r 7 |

| | |
|---|---|
| | pwysicaf.<br>• Rhowch olwyn stori yr un i'r dysgwyr.<br>• Dylent dynnu llun un digwyddiad ym mhob un o'r adrannau yn yr olwyn stori fel bod ganddynt grynodeb o stori ei fywyd pan fydd yr olwyn wedi ei llenwi. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gall y dysgwyr gymharu eu holwyn stori ag olwynion eu cyfoedion.<br>Ydyn nhw wedi dewis yr un digwyddiadau? Os nad ydynt, pam hynny? |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Gall y dysgwyr hŷn wneud ymchwil ehangach. Gallant hefyd ysgrifennu yn yr adrannau yn ogystal â thynnu lluniau. |